



Capel y Tabernacl



Rhagfyr 10fed, 2017



Mae croeso arbennig i ymwelwyr a ffrindiau sydd wedi ymuno â ni. Arweinir yr oedfa heddiw gan aelodau Ann Griffiths, y Parchg. Aled Edwards ac Eleri Huws. Diolch iddyn nhw am eu paratodau.

Y SULIAU NESAF

SUL NESAF – yr Ysgol Sul a Teulu Twm gyda’u sioe Nadolig gyda chast o gannoedd. Dewch yn gynnar!! Bydd coffi wedi’r oedfa.

Rhagfyr 24 – 10.45 Bore Cwrdd Carolau a cherddi hwyliog i’r teulu cyfan yn y bore. Plis dewch ag ambell hen anrheg gyda chi, i’w rhoi i elusen a chreu gofod yn eich cartref – rhag ofn y daw y dyn mewn coch yn ystod y nos a gorlenwi eich tŷ!
ac am **11 y Nos, oedfa pawb** i ddod a’i eitem.....

Rhagfyr 31 – Keith Rowlands a Geraint Wyn Ionawr 7 2018 - Oedfa Pentref Pentyrch, gydag Emlyn yn cydlynu
Ionawr 14 – Eirian
Ionawr 21 – Sul i’r Teulu
Ionawr 28ain – Y Parchg. Gethin Rhys
Chwefror 4ydd – Oedfa bentref Tonteg a Phentre’r Eglwys

NOSWYL NADOLIG

Diolch am yr unigolion sydd yn barod wedi dod i gael gair i ddweud bod ganddyn nhw eitem ar gyfer cwrdd noswyl Nadolig am 11 o’r gloch. Plis mynnwch air gyda Geraint Rees os oes cyfraniad gyda chi. Yn croesawu pob math o bethau!

BWYDO’R DI-GARTREF ANGEN HELP

Ein tro ni nesaf yn Tabernacl yr Aes fydd **prynhawn Nos Calan.** Mae’n gyfnod prysur i bawb mae'n siwr ond gobeithio fydd 2 neu 3 yn gallu ymuno gyda Margaret.
Plis cysylltwch â Margaret Calvert ar 01443 222908 neu calvertrm@btinternet.com

ELUSENNAU 2017

CASGLIAD ARBENNIG

Dros fisoedd Tachwedd a Rhagfyr, fe fydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn casglu dillad a dillad isaf yn benodol ar gyfer pobl ifanc 13–16 oed a chanddynt anghenion arbennig ac sy’n derbyn gofal ysbeidiol. Os medrwch gyfrannu i’r casgliad arbennig hwn, gofynnwn i chi labelu’r bagiau’n glir – **merch/bachgen** ac **oedran** – cyn eu gadael yn y lle arferol yn llofft y capel. Bydd hyn yn osgoi cymysgu gyda’r casgliad ar gyfer Adref.

TALEBAU NADOLIG

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y talebau i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Llwyddwyd i gasglu'r swm anrhydeddus o £475. Diolch i chi I gyd am eich haelioni.

ELUSENNAU 2017 #5

CYMORTH I FERCHED, CYMRU

Mae’r elusen hon yn gweithio i ddileu trais yn cartref a phob math o drais yn erbyn menwyod, ac yn darparu cyngor emosiynol ac ymarferol i fenywod a phlant sydd wedi neu yn dioddef unrhyw fath o gamdriniaeth, a llety dros dro diogel pan fo angen. Mae’r gwasanaeth yn gyfrinachol, yn anfeirniadol ac am ddim. Defnyddiwch yr amlenni brown I ddangos eich cefnogaeth. Diolch.

Mae crynodeb am yr elusennau amlenni brown ar ein gwefan
www.tabernacl.org



Cofiwch y gallwch adael eitemau i'r cartref a dillad i Adref yn llofft y capel. Diolch.

BANC BWYD

Diolch i bawb fu'n helpu gyda chasgliad y banc bwyd yn Tesco dros y tridiau diwethaf

Calendr Adfent Sha Nôl

Os ydych wedi bod yn casglu bwyd yn eich bocs cardbord, plis dewch a'r bocs i oedfa Sul nesaf er mwyn i'r bwyd fod ar gael i'r Banc Bwyd dros y Nadolig. Diolch.



Noson Canu Carolau Cymraeg i BOB OED **M&S Talbot Green**

Nos Fercher Rhagfyr 20fed rhwng 5.30 a 6.30 a diod poeth yn y pafiliwn
Tonysguboriau wedyn.

Elw i elusen Rhys Ruberry a Sefydliad
Lowri Pugh.

Gweddi'r Adfent

Dduw'r Adfent, tyrd i'n cyfarfod wrth inni wynebu tywyllwch y byd, a bydd gyda ni ar ein taith tuag at oleuni dy gariad.

Dyro inni'r dewrder i fynd i fannau tywyll yr anialwch a gwrando ar y lleisiau nad yw'r byd yn eu clywed.

Helpa ni i sefyll yn ymyl pawb sydd ymhell o adref, ac sy'n teimlo bod gobaith yn bell i ffwrdd. Cryfha ein calonnau a'n meddyliau wrth inni weithio dros ddyfodiad dy deyrnas, gyda'r sicrwydd bod dy oleuni di'n llewyrchu yn y tywyllwch ac na fydd y tywyllwch fyth yn ei ddiffodd.

Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr Newydd
Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Rhiannon Llewelyn, Siân Llewelyn Barnes, Arwyn Lloyd Jones ac Eluned Davies-Scott a enwebwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017 i wasanaethu ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr am dymor o dair blynedd. Arwyn Lloyd Jones fydd yn olynu Keith Rowlands fel Trysorydd wedi iddo ymdeol ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ystod y cyfarfod diolchwyd yn ffurfiol i Keith am ei holl waith cywir a chydwybodol am gyfnod o ddeng mlynedd, a thalwyd diolch hefyd i Wendy Reynolds am ei harweiniad doeth ac urddasol wrth i'w thymor hithau fel Cadeirydd y Bwrdd ddod i ben wedi dwy flynedd. Bydd adroddiad llawnach o'r cwrdd blynyddol i'w weld yn rhifyn Ionawr 2018 o
Tafod y Tab.

Tafod y Tab

Daeth yn amser paratoi'r rhifyn nesaf o *Tafod y Tab* i'w gyhoeddi ddiwedd Ionawr. Mae croeso i unrhyw aelod anfon erthyglau / newyddion / lluniau / cyhoeddiadau i'w cynnwys y tro hwn. Rydym yn anfon atoch mewn da bryd i chi gael casglu deunydd ynghanol prysurdeb tymor y Nadolig. Anfonwch yn syth ar ôl y gwyliau, os gwelwch yn dda, *ac ar yr hwyraf erbyn 7 Ionawr, 2018* at gehpengwern@yahoo.co.uk

SADWRN NESAF!

Ffair Nadolig y Pentref

Cynhelir y Ffair yn Neuadd y Pentref a Chanolfan y Capel ar Sadwrn 16 Rhagfyr o 10 y bore i 2 y pnawn. Mae Caroline Rees yn apelio am gymorth ar y dydd. Plis cysylltwch ar carolinerees2@hotmail.com

Yn y nos, noson o ganu nadoligaidd Cymraeg gyda HuwM a chast o offerynwyr yn y Carpenters

Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, www.tabernacl.org neu Gwilym Huws: 07710 237327 gehpengwern@yahoo.co.uk/ Cyhoeddiadau at geraintrees@hotmail.com